

Julie Morgan AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

24 Gorffennaf 2019

Annwyl Julie


Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Hawliau Plant yng Nghymru

Fel y gwyddoch, yr wythnos hon, mae'r Pwyllgor wedi lansio ymchwiliad i hawliau plant yng Nghymru. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwnnw wedi'i nodi yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

Bydd ymgynghoriad y Pwyllgor ar gael tan ddydd Gwener 20 Medi, a bydd sesiynau tystiolaeth lafar yn cael eu trefnu ar gyfer tymor yr hydref. Byddwn, wrth gwrs, yn cysylltu â chi maes o law i drefnu dyddiad i chi roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Ar hyn o bryd, ac wrth i ni ddechrau trafod y mater hwn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y caiff y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig ei gyhoeddi i'w gymeradwyo gan y Cynulliad. Ym mis Mawrth 2018, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn mynd i 'ystyried ac ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Cynllun Hawliau Plant, a chynnig Cynllun diwygiedig a gyflwynir i gael cymeradwyaeth y Cynulliad'. Fodd bynnag, mae'n aneglur beth yw'r sefyllfa bresennol.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd



Cylch gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad byr ar hawliau plant yng Nghymru i adolygu effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Bydd yn ystyried:

- i ba raddau y mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 wedi dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei dyraniadau ariannol a ph'un a yw wedi cyflawni 'mesurau cyffredinol' y Confensiwn o weithredu;
- tystiolaeth a yw'r Mesur wedi arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc;
- a yw'r dyletswyddau yn y Mesur wedi'u sefydlu'n effeithiol ar draws polisi a phortffolios cabinet Llywodraeth Cymru;
- i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod ei ddyletswyddau o fewn y Mesur yn cael eu cyfleu yng ngwaith y cyrff cyhoeddus y mae'n eu cyllido gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff y GIG;
- i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ei dyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc;
- sut mae'r ddyletswydd i gael 'sylw dyledus' i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei gweithredu'n ymarferol ac a yw Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu defnyddio fel adnodd ystyrlon;
- effeithiolrwydd y Cynllun Hawliau Plant ac adroddiad cydymffurfio diweddaraf Llywodraeth Cymru ac i ba raddau y maent yn dangos tystiolaeth o weithredu digonol ar ran Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Mesur yn cael ei weithredu'n llawn;
- pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb yn strategol i Sylwadau Cloi Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

